



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Annwyl Fan

CARTREF ANNWYL FAN
Colonel Road
Betws
Rhydaman
SA18 2HW

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/08/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk

Rhaid i chi atavnhwrchu ein deunydd yn fanwl gwir a nheidio â'i ddefnyddio mewn cwl-destun

Cartref Annwyl Fan

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal â Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Cartref Annwyl (Ammanford) Limited
Lleuedd cofrestredig	70
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	17/02/2023
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae iechyd a llesiant y bobl yn bwysig i'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r cofnodion gofal a chymorth yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn, ei anghenion a'r hyn sy'n bwysig iddo.

Mae'r bobl a'u teuluoedd yn siarad yn gadarnhaol iawn am Gartref Annwyl Fan.

Mae'r bobl yn cael gwasanaeth gan reolwr sy'n cael ei barchu a thîm o staff ymroddedig. Caiff y rheolwr ei gefnogi'n dda gan dîm uwch-reolwyr y sefydliad a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwyllo'r gwasanaeth mewn ffordd dda drwy ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau archwilio ansawdd a'i ymweliadau statudol.

Mae'r gwasanaeth yn darparu amgylchedd diogel i'r bobl fyw ynddo ac mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r ardaloedd byw cymunedol yn groesawgar ac mae'r gerddi yn cynnig amrywiaeth o leoedd diogel i'r bobl a'u hymwelwyr gymdeithasu. Gellid gwella rhai o'r toiledau cymunedol a'r coridorau er mwyn diwallu anghenion y bobl sydd ag anawsterau golwg yn well. Mae rhaglen adnewyddu barhaus ar waith.

Llesiant

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely a dewis eu prydau bwyd a gallant godi a mynd i'w hystafelloedd pan fydd yn gyfleus iddyn nhw. Caiff yr unigolion a/neu eu cynrychiolwyr eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Caiff eu barn am y gwasanaeth ei cheisio gan yr Unigolyn Cyfrifol yn ystod ei hymweliadau Rheoliad 73 a thrwy holiaduron a ddefnyddir i lywio'r adroddiadau ar Ansawdd y Gofal bob chwe mis. Gall y bobl sgwrsio yn Gymraeg os mai dyna'i dewis iaith. Fodd bynnag, dylai gwybodaeth ddwyieithog fod ar gael yn hawdd hefyd.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac mae ganddynt feddwl uchel o'r unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent hefyd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys gwybodaeth am ofynion a dewisiadau'r bobl. Mae'r gwasanaeth yn cydgyssylltu â gweithwyr iechedd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl. Gall y bobl a/neu eu cynrychiolwyr godi pryderon am y gwasanaeth os bydd angen iddynt wneud hynny. Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwylio a hyfforddi da ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r dulliau gofalu cywir. Mae'r staff yn parchu'r rheolwr a gaiff, yn ei dro, ei gefnogi'n dda gan ei reolwr llinell a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl a chânt eu cefnogi gan bolisiâu a gaiff eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Ar y cyfan, mae'r bobl yn cyflawni eu canlyniadau llesiant oherwydd yr amgylchedd. Er bod yr addurniadau mewnol yn helpu'r bobl i ganfod eu ffordd eu hunain o amgylch y coridorau neu i'w hystafelloedd gwely, gallai canllawiau cyferbyniol helpu i gefnogi'r bobl, yn benodol y rhai ag anawsterau golwg. Mae'r gerddi yn cynnig lleoedd diogel i'r bobl ymlacio, cwrdd ag ymwelwyr a chymdeithasu.

Gofal a Chymorth

Caiff y bobl y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r cofnodion gofal yn fanwl a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae angen gwybodaeth ychwanegol am yr unigolyn, ei ddiddordebau a'i gefndir i roi gwybodaeth well i'r gweithwyr gofal. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Caiff gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eu cynnwys pan fo angen hynny ar y bobl. Caiff hyn ei ddogfennu'n dda yn y cofnodion gofal. Er y gall y bobl fwynhau gweithgareddau, mae angen gwneud cofnod gwell o'u diddordebau, eu hobiau, a chanlyniadau'r gweithgareddau i'r unigolyn.

Mae'r bobl a'u perthnasau yn teimlo eu bod yn cael y gofal sydd ei angen arnynt ac maent yn canmol y staff; gwnaethant ddweud wrthym; *“the carers are lovely, they are very kind”, “the staff are helpful, respectful and look after my mother well”* ac *“I don't have any concerns about the care staff, nothing is too much trouble for them.”*

Mae'r staff yn wybodus ac yn siarad yn gadarnhaol am gefnogi'r bobl sy'n byw yng Nghartref Annwyl Fan. Gwnaethant ddweud wrthym, *“I really enjoy looking after the residents, they are like family”, “It's great working here, the residents are lovely”* ac *“I take great pride in my role as a carer, the residents are at the heart of what I do”*. Caiff amrywiaeth o dechnegau cyfathrebu eu defnyddio i siarad â'r bobl sydd ag anghenion mwy cymhleth. Mae sawl aelod o'r tîm o staff yn cyfathrebu'n Gymraeg â'r bobl, ond nid yw gwybodaeth ddwyieithog bob amser ar gael yn hawdd i'r bobl ei darllen. Yn ystod nifer o arsylwadau drwy gydol cyfnod yr arolygiad, gwelsom fod y staff gofal yn rhyngweithio'n garedig iawn â'r bobl.

Mae'r bobl yn cael dewis pryd i godi a mynd i'r gwely, mae opsiynau amrywiol ar gyfer prydau bwyd ar gael bob amser. Dywedodd y bobl wrthym *“I like a bit of a lie-in sometimes”, “the food is very good. I know I can choose different meals if I want”* ac *“It's a lovely home, I enjoyed my lunch, it was very tasty”*

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel. Yn ystod trafodaethau â'r bobl, dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yng Nghartref Annwyl Fan a'u bod yn gallu codi pryderon os bydd angen iddynt wneud hynny. Dywedwyd wrthym *“I speak to the carers if there is a problem”* ac *“I'll let [manager] know if I need to”*. Roedd y perthnasau yn teimlo y gallant godi pryderon ac yn credu y byddai'r rheolwr yn mynd i'r afael â nhw. Caiff manylion am weithdrefn gwyno'r sefydliad eu darparu i'r bobl wrth iddynt symud i'r gwasanaeth a'u harddangos mewn ardaloedd cymunedol.

Yr Amgylchedd

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu lleihau. Cynhelir amrywiaeth o wiriadau ac archwiliadau cynnal a chadw cynhwysfawr. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi a'u gwasanaethu o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd.

Mae'r ardaloedd cymunedol a'r allanfeydd argyfwng yn daclus ac nid oes unrhyw beryglon yn yr ardaloedd hynny. Caiff sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) eu storio'n ddiogel. Caiff systemau mynediad bysellbad eu defnyddio lle yr ystyrir bod eu hangen ac mae'n ofynnol i bob ymwelydd lofnodi wrth fynd i mewn ac allan o'r gwasanaeth. Mae cortynnau tynnu a larymau argyfwng yn hawdd i'r bobl eu cyrraedd i'w defnyddio ac mae'r staff yn ymateb iddynt mewn modd amserol. Mae'r staff cadw tŷ yn gweithio'n galed i sicrhau bod y gwasanaeth yn lân heb unrhyw arogleuon.

Ar y cyfan, gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Caiff y gerddi cymunedol eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn ddiogel i'r bobl eu defnyddio a'u mwynhau, gan gynnwys gardd sy'n addas i bobl â dementia. Mae amrywiaeth o welyau uchel, planhigion, arddangosiad blodau a phrysgoed i'w gweld o amgylch y gwasanaeth. Mae'r ystafelloedd ymolchi cymunedol yn lân ac yn ddymunol i'r bobl eu defnyddio. Fodd bynnag, gellir gwella rhai o'r toiledau cymunedol drwy ystyried darparu dodrefn o liwiau gwahanol er mwyn cefnogi'r bobl ag anawsterau golwg. Mae lluniau, gweithiau celf ac arddangosfeydd yng nghoridorau'r ystafelloedd gwely i'r bobl eu mwynhau ac i ganfod eu ffordd eu hunain o gwmpas yr ardaloedd hyn. Gellid hefyd ystyried rhoi canllawiau gwahanol yn y coridorau i gefnogi'r bobl i symud yn ddiogel o gwmpas yr ardaloedd hyn. Caiff rhai arddangosiadau ac arwyddion dwyieithog eu defnyddio yn y gwasanaeth.

Caiff yr ystafelloedd gwely eu personoli yn unol â dewisiadau'r bobl, gan gynnwys lluniau, ffotograffau, ornamentau ac eitemau o ddodrefn. Mae'r lolfeydd cymunedol a'r ystafelloedd bwyta wedi cael eu haddurno a'u dodrefnu'n dda ac maent yn groesawgar i'r bobl eu defnyddio a chymdeithasu ynddynt. Mae rhaglen adnewyddu barhaus ar waith.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu da ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau Rheoliad 73 â'r gwasanaeth yn unol â'r amserlenni gofynnol. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi cael copïau o adroddiadau sy'n dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff fel rhan o'i ymweliadau â'r gwasanaeth. Cadarnhawyd hyn gan y staff a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r tîm rheoli yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau monitro ansawdd ac archwiliadau. Caiff y camau sy'n deillio o'r archwiliadau hyn eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r rheolwr yn cael ei pharchu'n fawr gan y timau o staff, eu huwch-reolwr a'r sefydliad. Dywedodd y staff wrthym fod y rheolwr yn hawdd mynd ati, yn barod ei chymwynas ac yn ofalgar. *“[Rheolwr] has an open door policy, I know I can always speak to her if I need to and she allows the time to discuss any issues or concerns”* ac mae'r *“[rheolwr] is really kind and helpful”*.

Mae'r bobl a'u teuluoedd yn canmol y tîm rheoli a'r staff yn fawr iawn, gan ddweud *“this is a really good home, the staff are great, as is the manager. I know I could speak to any of them if I had a concern”* a *“[rheolwr] and all the staff work hard to ensure all the residents are really well cared for.”*

Mae prosesau recriwtio a dethol manwl ar waith. Mae cofnodion y staff yn cynnwys yr holl wiriadau a chliriadau gofynnol sydd ar waith cyn i aelod o staff ddechrau gweithio. Mae'r staff yn cael eu sefydlu, yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd ac yn cael arfarniad blynyddol. Mae pob aelod o'r staff yn ymgymryd ag amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol ac arbenigol er mwyn gallu cefnogi'r bobl y mae ganddynt weithiau anghenion cymhleth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym am yr amrywiaeth o hyfforddiant y maent wedi'i gael a manteision hynny iddyn nhw ac i'r bobl sy'n cael cymorth ganddynt. Mae matrices hyfforddiant a chofnodion gofal y gwasanaeth yn cadarnhau hyn. Mae pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn dangos dealltwriaeth glir o'i rôl wrth amddiffyn unigolion.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n unol â'i Ddatganiad o Ddiben a chaiff hysbysiadau ar-lein eu cyflwyno i AGC yn unol â'r gofynion.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 27/09/2024